

Cofnodion Cyfarfod 2/11/2023

Presennol: Y Dirprwy Faer Tony Parry, Jacqueline Allen, Dilys Evans, Rhys Evans, Fiona Hopkins, Eluned Jones, Clare Mackintosh, Sion McGuinness a Huw Antur (*Clerc*).

Hefyd yn bresennol: Y Cyng. Dilwyn Morgan (Aelod lleol Cyngor Gwynedd).

Ymddiheuriadau: Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyng. Eifion Roberts, Moira Mai ac Eric Williams.

Cyhoedd: Neb yn bresennol.

1. **Y Maer:** Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Dirprwy Faer Tony Parry.

2. **Buddiant:** Nid oedd datganiadau o fuddiant.

3. **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod 5/10/23.

4. **Materion y Clerc / Materion yn codi:**

- i. Mandad Banc a threfniadau bancio ar lein (Clerc newydd). Cytunwyd i roi awdurdod i'r clerch newydd i weithredu materion ariannol y cyngor a gwneud taliadau ar ei ran. Cytunwyd i addasu'r mandad banc i adlewyrchu hyn ac i wneud y trefniadau angenrheidiol i'r clerch fedru gweinyddu cyfrif banc y cyngor ar lein.
- ii. Trefniadau Sul y Cofio: Gwnaed trefniadau ar gyfer Sul y Cofio – Tony Parry i gysylltu hefo Siop Eleri, Jackie Knowles i gario'r dorch a John C Williams i glirio'r gofeb yn ôl yr arfer.
- iii. Holiadur Hunaniaith: Cytunwyd i holi Hunaniaith am gopi o ymateb y cyngor i'r holiadur.
- iv. Gohebiaeth Bestway: Nodwyd na chafwyd ymateb i'r ohebiaeth ynglŷn â chyflwr siop Bargain Booze, ond nodwyd fod gweithwyr ar y safle heddiw yn gwneud gwaith atgyweirio. Gofynnwyd i'r Cyng. Dilwyn Morgan godi'r mater gyda Swyddog Gorfodaeth Cyngor Gwynedd.
- v. Rheolau Sefydlog: Nodwyd na dderbyniwyd ymateb gan Fenter Iaith Gwynedd, ac i ail drafod y mater wedi derbyn eu hymateb.

5. **Cyngor Gwynedd:** Cafwyd adroddiad gan y Cyng. Dilwyn Morgan, pryd y nodwyd ei fod wedi trafod y problemau baw cŵn gyda'r Warden Cŵn, yr Heddlu a landlordiaid lleol. Adroddwyd fod y gwaith wedi cychwyn o dacluso coed y dref, a bod hon yn rhaglen waith 15 mlynedd. Adroddwyd fod Rhaglen Waith y Tim Tacluso (Ardal Ni) wedi cychwyn, hyn yn cynnwys symud meinciau a biniau'r dref. Llongyfarchodd pawb fu'n gysylltiedig ag Eisteddfod Powys dros y penwythnos, eisteddfod lwyddiannus dros ben. Dywedodd fod

Grŵp Dementia Actif wedi cychwyn yn y Ganolfan Hamdden (pob dydd Mercher).
Dyweddod fod toriadau ariannol sylweddol yn wynebu Cyngor Gwynedd dros y cyfnod nesaf.

6. **Y Bala – Yma o Hyd:** Cafwyd adroddiad o gyfarfod o’r pwyllgor dathlu a gynhaliwyd ar Hydref 26ain, pryd yr etholwyd Lisa Butler yn gadeirydd a’r Cyng. Clare Mackintosh yn ysgrifennydd. Nodwyd fod llawer o syniadau da wedi eu trafod ar gyfer y dathlu. Trafodwyd beth fyddai rôl benodol y Cyngor Tref yn y dathliadau, ac fe gytunwyd i roi blaenoriaeth i waith ar Domen y Bala, hyn o bosibl i gynnwys bwrdd dehongli, arwyddion a gwaith tacluso cyffredinol. Cafwyd trafodaeth ar Gynllun Celf Canol Trefi Cyngor Gwynedd, pryd y byddai posibilrwydd o gymorth ariannol o hyd at £25,000 ar gael. Cytunwyd i drafod murlun i’r dref, placiau Tro Trefol, arwydd ar y Domen ac arwyddion newydd i’r dref yn nodi 700 mlwyddiant y dref. Cytunwyd i drafod hyn ymhellach gyda’r swyddog Rhian George. Nodwyd fod y cyfarfod nesaf ar Dachwedd 16eg.

7. **Is-bwyllgorau:** Derbyniwyd adroddiadau:

- i. Is-bwyllgor y Nadolig: Adroddwyd fod trefniadau’r goleuadau mewn trefn, ac y gwneir trefniadau cystadleuaeth Ffenestri Siopau’r dref. Nodwyd na fydd coeden Nadolig yn cael ei gosod oherwydd diffyg gofod.
- ii. Is-bwyllgor gofalu am a chynnal asedau, gan gynnwys llochesi bws a thaclusrwydd y dref: Nodwyd fod coed y dref yn cael eu torri yn ôl yr angen.
- iii. Is-bwyllgor Tref Gyfeillgar: Adroddwyd fod y trefniadau i symud y meinciau ar y gweill.
- iv. Bioamrywiaeth: Adroddwyd fod y grŵp yn trafod hefo Swyddog Bioamrywiaeth Gwynedd, sef Hywyn Williams.
- v. Is Bwyllgor Cyllid: Gwnaed trefniadau i’r Is Bwyllgor gyfarfod ar Ragfyr 6ed am 7 o’r gloch i ystyried materion cyllid y cyngor a pharatoi cyllideb am y flwyddyn 2024/2025.

Cynrychiolwyr ar fudiadau:

- i) Un Llais Cymru: Nodwyd fod cyflwyniad Planning Aid Wales wedi ei anfon ymlaen i’r cynghorwyr.
 - ii) Cymdeithas Chwaraeon y Bala a Phenllyn: Nodwyd fod y gymdeithas yn cyfarfod heno.
 - iii) Grŵp Siopau’r Bala: Nodwyd fod trefniadau’r Noson Siopa Hwyr ar y gweill.
 - iv) Cwmni Pum Plwy Penllyn: cafwyd adroddiad gan y Cyng. Rhys Evans a chyfeiriodd at lwyddiant yr Ŵyl Fwyd yng Nghanolfan Bro Tegid ar Hydref 25ain (noson ffair). Nodwyd na chafwyd ymateb gan Gyngor Gwynedd gyda phrydles newydd Canolfan Bro Tegid i Gwmni Pum Plwy Penllyn, a chytunodd y Cyng. Dilwyn Morgan i edrych i fewn i hyn.
8. **Materion Cynllunio:** Cais NP5/53/598C – cais amlinellol i adeiladu tŷ ger Ffynnon Beuno: Nodwyd fod gwybodaeth ychwanegol wedi eu derbyn yn dilyn y cais gwreiddiol ym mis Mehefin 2023, pryd yr oedd y Cyngor Tref wedi gwrthwynebu’r

cais. Cytunwyd i fynegi pryder am y cais unwaith eto oherwydd ei effaith bosibl ar fioamrywiaeth yr ardal a'i agosatrwydd at safle hanesyddol ac archeolegol Ffynnon Beuno.

9. Materion Cyllid:

- i. Ystyriwyd y sefyllfa ariannol ddiweddaraf, a nodwyd fod £25,423 yn y cyfri cyfredol, £16,348 yn y cyfri cadw a £489 yng Nghronfa'r Maer. Nodwyd fod £5,000 wedi ei glustnodi tuag at gostau dathliadau Y Bala – Yma o Hyd.
- ii. Cymeradwywyd taliadau am lanhau Llochesi Bws (£75), Pabi Gwyn Sul y Cofio, blodau Siop Celt, costau cynnal llwybrau cyhoeddus am 2023 i Bartneriaeth Penllyn (£645), taliadau dyledus HMRC a chyflog y Clerc.
- iii. Cytunwyd i drafod adroddiad y Panel Cydnabyddiaeth Ariannol yn yr Is Bwyllgor Cyllid ar Ragfyr 6ed.
- iv. Derbyniwyd llythyr o ddiolch gan Glwb Bowlio'r Bala am y gefnogaeth ariannol.
- v. Cytunwyd i drafod ceisiadau ariannol o'r newydd yn ddiweddarach yn y flwyddyn ariannol.

10. Gohebiaeth:

- i. Partneriaeth Penllyn – Cynnal Llwybrau Cyhoeddus: Cytunwyd i roi'r mater gerbron yr Is Bwyllgor Cyllid.
- ii. Cynllun Adfywio Ardal Ni (Cyngor Gwynedd): Cyflwynwyd prosiectau ardal y Bala fydd i'w cynnwys yn y cynllun gan Huw Antur. Nodwyd fod angen ychwanegu Cynllun Tref y Bala a Chynllun Tref Gyfeillgar Y Bala. Nodwyd yr angen i drafod Cynllun Datblygu Unedol Parc Cenedlaethol Eryri gyda swyddogion y Parc ddechrau'r flwyddyn, a'r posibilrwydd o ddatblygu gweledigaeth i'r dref gyda chymorth Planning Aid Wales.
- iii. Offer Defib y Dref: Nodwyd fod rhywfaint o waith adnewyddu ar yr offer defib ger y Llew Gwyn, a bod posibilrwydd y bydd angen cefnogaeth ariannol y cyngor. Cytunwyd i gyfrannu at y costau tebygol o tua £30 os bydd galw am hyn.
- iv. Gwasanaeth Meddygol: Derbyniwyd holiadur i'w gwblhau.
- v. Un Llais Cymru: Derbyniwyd eu rhaglen hyfforddiant am y cyfnod Tach/Rhag 2023.
- vi. Un Llais Cymru: Nodwyd fod hyfforddiant ar gael ar greu Cynllun Cymunedol.
- vii. Un Llais Cymru: Nodwyd fod sesiwn hyfforddiant i gynghorwyr a chlercod ar y cyd a'r SLCC ar Dachwedd 8fed.
- viii. Gwasanaeth Ambiwlans: Derbyniwyd copi o'u Adolygiad Gwasanaeth.
- ix. Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd: Derbyniwyd eu newyddlen.
- x. Adolygiad Sector Cynghorau Cymuned a Thref: Derbyniwyd copi o Arolwg Iechyd Democrataidd, sy'n rhoi sylw i faterion ymgynghori ac ymgysylltu cymunedol a materion cynrychiolaeth ar gynghorau lleol.
- xi. Cronfa Grymuso Gwynedd: Derbyniwyd gwybodaeth am gyfleon ariannu trwy Gronfa Grymuso Gwynedd.

- xii. Dwr Cymru: Derbyniwyd diweddariad o'r gwaith ar Argae Llyn Celyn.
- xiii. Trefi Smart Cymru: Derbyniwyd gwybodaeth am faterion digidol trefi Cymru.
- xiv. Cynllun Celf Canol Trefi: Y mater wedi ei drafod o dan bwynt 6, Y Bala - Yma o Hyd.
- xv. Cadwch Gymru'n Daclus: Derbyniwyd gwybodaeth am weminar Pecyn Garddio. Dywedodd y Cyng. Jackie Knowles y byddai ganddi ddiddordeb mewn mynychu.
- xvi. Rhaglen Waith Cyngor Gwynedd – Tim Tacluso Ardal Ni: Derbyniwyd copi o'r Rhaglen Waith.
- xvii. Rali Plains: Derbyniwyd gwybodaeth am drefniadau'r rali, ac fe gytunodd y Cyng. Clare Mackintosh i drafod gyda nhw y posibilrwydd o gysylltu'r rali gyda threfniadau dathlu Y Bala – Yma o Hyd.

11. Materion lleol y Cynghorwyr Tref:

- i. Diolchodd y Cyng. Rhys Evans, oedd yn gadeirydd Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Powys, am gefnogaeth y Cyngor Tref a'r ardal yn gyffredinol i'r eisteddfod. Cytunwyd fod yr achlysur wedi bod yn llwyddiant mawr, a llongyfarchwyd y pwyllgor ar eu gwaith.

12. Daeth y cyfarfod i ben am 8.30pm. Y cyfarfod nesaf i'w gynnal Nos Iau Rhagfyr 14eg 2023.